

Ysgol y Dderwen



Polisi Ymddygiad Adferol

Polisi Ymddygiad Adferol

Mae ethos Ysgol y Dderwen yn seiliedig ar barch at bob unigolyn sy'n perthyn i'r gymuned sy'n bodoli yma boed yn staff neu'n ddisgyblion. Mae hapusrwydd cymuned yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. Hunan-barch, parch at eraill, cwrteisi, caredigrwydd, sensitifrwydd, cysondeb a thegwch yw prif werthoedd bywyd yr ysgol. O'r athroniaeth hon y daw ein disgyblaeth. Ceisiwn feithrin yr egwyddor o hunan-ddisgyblaeth drwy ddefro'r ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb sydd gan bob unigolyn dros ei weithredoedd ei hun.

Mae Polisi Ymddygiad Ysgol y Dderwen yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn ac yn gosod fframwaith o ddisgyblaeth gadarnhaol glir a theg ar gyfer ymdrin ag achosion o gamymddwyn o fewn neu tu allan i'r dosbarth. Mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion Arferion Adferol fel rhan annatod o'r poilisi. Ein prif nod yw sicrhau ymagwedd gadarnhaol tuag at fywyd a gwaith yr ysgol er mwyn hyrwyddo a chaniatau dysgu llwyddiannus o fewn a thu allan i'r dosbarth. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau Plant gweithredir y polisi hwn hefyd yn unol ag egwyddorion Hawliau Plant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sydd yn rhoi'r hawl i blant gael addysg heb gael eu tarfu gan ymddygiad anystyriol disgyblion eraill.

Mae ethos Ysgol y Dderwen yn seiliedig ar barch at bob unigolyn sy'n perthyn i'r gymuned sy'n bodoli yma boed yn staff neu'n ddisgyblion. Mae hapusrwydd cymuned yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. Hunan-barch, parch at eraill, cwrteisi, caredigrwydd, sensitifrwydd, cysondeb a thegwch yw prif werthoedd bywyd yr ysgol. O'r athroniaeth hon y daw ein disgyblaeth. Ceisiwn feithrin yr egwyddor o hunan-ddisgyblaeth drwy ddefro'r ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb sydd gan bob unigolyn dros ei weithredoedd ei hun.

Mae Polisi Ymddygiad Ysgol y Dderwen yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn ac yn gosod fframwaith o ddisgyblaeth gadarnhaol glir a theg ar gyfer ymdrin ag achosion o gamymddwyn o fewn neu tu allan i'r dosbarth. Mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion Arferion Adferol fel rhan annatod o'r poilisi. Ein prif nod yw sicrhau ymagwedd gadarnhaol tuag at fywyd a gwaith yr ysgol er mwyn hyrwyddo a chaniatau dysgu llwyddiannus o fewn a thu allan i'r dosbarth. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau Plant gweithredir y polisi hwn hefyd yn unol ag egwyddorion Hawliau Plant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sydd yn rhoi'r hawl i blant gael addysg heb gael eu tarfu gan ymddygiad anystyriol disgyblion eraill.



YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU

Mae'r ysgol yn 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau.' Mae'r ysgol yn cydnabod ymroddiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, sy'n ei osod yn graidd i gynlluniau, polisiâu, ethos a gweithredoedd yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymrwymo i addysgu disgyblion am y Confensiwn drwy gyfres o weithgareddau ac ymgyrchoedd.

- **Erthygl 12**- Hawl pob plentyn i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i gael gwrandawriad
- **Erthygl 19**- Yr hawl i beidio a chael ei niweidio, cael gofal a chadw'n ddiogel
- **Erthygl 28**- Yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol
- **Erthygl 29**- Yr hawl i fod y gorau y gall fod
- **Erthygl 30**- Yr hawl defnyddio ei iaith ei hun
- **Erthygl 33**- Yr hawl i gael ei ddiogelu rhag cyffuriau peryglus
- **Erthygl 37**- Yr hawl i gael ei drin yn deg

Disgwyliadau

Mae disgwyliadau Ysgol y Dderwen yn seiliedig ar yr egwyddor o **barch, cyd-fyw a chyd-dynnu hwylus**. Gosodir poster i ym mhob ystafell ddosbarth yn amlinellu Rheolau'r Dosbarth yn glir i bawb. Cyfeirir yn gyson mewn gwasanaethau ysgol, cyfnodau bugeiliol a gwersi, at ein disgwyliadau.

Rhoddir neges glir i gymuned yr ysgol (trwy wasanaethau, cyfnodau bugeiliol a gwersi a thrwy Llyfrau Cyswllt) bod ymddygiad ymosodol/bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol ac y bydd ymchwiliad manwl i ddigwyddiadau gyda chanlyniadau difrifol yn unol a'r Côd Disgyblaeth. Seilir ein **Côd Disgyblaeth** ar egwyddorion Arferion Adferol gyda'r nod o adfer ymddygiad gwael i fod yn ymddygiad parchus ac adfer y berthynas rhwng disgyblion er mwyn symud ymlaen gyda bywyd ysgol ble bynnag mae hyn yn bosib. Defnyddir dulliau trafod Adferol fel rhan annatod o'r broses ddisgyblu.

Rydym yn ceisio creu awyrgylch dysgu cadarnhaol drwy:

- Hyrwyddo ymddygiad da
- Hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth a hunan-barch
- Hyrwyddo perthnasau cadarnhaol
- Hyrwyddo cysondeb wrth ymateb i ymddygiad cadarnhaol a negyddol

Pan nad yw safonau ymddygiad yn dderbyniol, mae'r ysgol yn ceisio bod yn **gadarn**, yn **deg**, yn glir ac yn **gyson**:-

- yn **gadarn** yn yr achosion a ddilynir; cymerir camau; mae'r disgybl yn cael gwybod bod ei ymddygiad yn annerbyniol ac ymdrinnir â digwyddiadau difrifol yn unol â hynny, sy'n cynnwys defnyddio'r gweithdrefnau cywir.
- yn **deg** bod natur y gosb yn gweddu i'r drosedd, ond yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau unigol.
- yn **amlwg**, mae disgyblion a rhieni yn deall y disgwyliadau.
- **cysondeb** yn y ffaith bod canllawiau clir yn cael eu rhoi i staff i hyrwyddo cysondeb wrth ymdrin ag achosion o gamymddwyn a bod yr ystod o gosbau yn cael eu defnyddio'n gyson.

I fod yn effeithiol, **rhaid i'r holl staff orfodi'r polisi ymddygiad yn drylwyr ac yn gyson**. Os nad yw hyn yn wir, yna bydd y disgyblion yn drysu a'r polisi'n gwanhau. Rhaid i'n polisi ysgol ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth gael ei atgyfnerthu o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi gan yr **holl staff bob amser**.

Ar ein poster Parch dengys beth sy'n bwysig i ni yn Ysgol y Dderwen

- **CYMRAEG** - Cymraeg yw iaith yr ysgol a phob gweithgaredd yn yr ysgol
- **YMDDYGIAD** - Parchu hawl **pob plentyn** yn ôl y Cenhedloedd Unedig i gael addysg dda ac i fod yn hapus a diogel yn yr ysgol
Dilyn rheolau'r ysgol ar gyfer ymddygiad mewn gwersi a thu hwnt i wersi. Gwrando ar staff yr ysgol.
- **YMDRECH** - Rhaid rhoi 100% - eich gorau – i gyflawni gwaith dosbarth, gwaith cartref, a gweithgareddau eraill
- **CYFRIFOLDEB** - Mae angen i bob disgybl dderbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hunan. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod ei ymddygiad yn hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol a diogel.
- **EMPATHI** - Mae empathi, sef y gallu i ddeall teimladau eraill, yn allweddol i sefydlu ffydd a pharch ac i ddangos parch i deimladau, anghenion a hawliau pobl eraill.
- **PRESENOLDEB/PRYDLONDEB** - Presenoldeb 100% a phrydlondeb i bob gwrs
- **GWISG** – Gwisg Ysgol taclus a thrwsiadus ar bob achlysur.

RHEOLAU'R YSTAFELL DDOSBARTH

- **CYMRAEG YW IAITH YR YSGOL A PHOB GWEITHGAREDD YNDDI**

- Mae hawl gan bob disgybl i gael addysg dda- felly rhaid osgoi tarfu ar wersi mewn unrhyw ffordd. Felly
 - ✓ Pan fydd yr athro yn hawlio sylw, rhaid ymdawelu yn syth.
 - ✓ Codwch eich llaw cyn gofyn am ateb cwestiwn.
 - ✓ Gwrandewch ar yr athro/athrawes ac ar gyfraniad disgyblion eraill
- Gwnewch eich gorau ym mhob tasg.
- Cofnodwch waith cartref, a'i gyflwyno yn brydlon
- Ar ddiwedd y wers, rhaid gadael yn dawel pan fydd yr athro/athrawes yn eich rhyddhau.

Offer ac adnoddau angenrheidiol- Dylech ofalu fod yr offer cywir gennych ym mhob gwrs. Bydd angen adnoddau cyffredinol i bob gwrs ond offer mwy penodol i wersi eraill. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod popeth sydd angen gyda chi.

Mewn undod mae nerth! Dull gytun wrth ganmol!

Dathlu Ymddygiad Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ac yn dathlu ymddygiad da. Dengys ymchwil y bydd y dull hwn yn datblygu ethos o garedigrwydd a chydweithrediad tra'n annog ymddygiad da ymhellach yn hytrach nag atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unig.

• Dull Llenwi cynhwysydd

Mae pob dosbarth yn defnyddio strategaeth dosbarth cyfan i annog "ymdrech fîm" tuag at ymddygiad cadarnhaol. Bydd disgyblion yn cael eu gwobrwyo am eu hymddygiad a'u gweithredoedd trwy osod Marblis/pompom/cownteri i gynhwysydd yn ystod gwersi neu amser egwyl/cinio.

Unwaith y bydd y cynhwysydd yn llawn bydd gwobr/budd dosbarth.

Anogir disgyblion i feddwl am syniadau gwobrwyo/budd er mwyn annog perchnogaeth ac i benderfyniadau gael eu harwain gan ddisgyblion.

Mae'n bwysig nodi, unwaith y bydd marblis/pompom/cownter wedi'i osod mewn cynhwysydd, nad yw byth yn cael ei dynnu er gwaethaf unrhyw dor-ymddygiad yn y dyfodol.

• Amser aur neu amser chwarae ychwanegol

Cedwir y gwobrau/buddiannau hyn ar wahân ac mae angen ymagwedd gyson. Lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda bydd amser euraidd/amser chwarae ychwanegol yn cael ei ddyfarnu, fodd bynnag gall amser euraidd gael ei gollu pan fydd disgybl neu ddisgyblion yn camymddwyn.

Mae gwobrwyo am ymdrech mewn gwaith ysgol, ymddygiad a charedigrwydd yn cario'r un statws.

Darpariaeth ychwanegol

Dulliau i gefnogi ymddygiad cadarnhaol trwy greu diwylliant o gynhesrwydd ac ymgysylltiad cymdeithasol mewn

rhyngweithiadau staff-disgybl a disgybl-disgybl.

1. Amser Cylch

Bydd pob disgybl yn cymryd rhan mewn sesiynau Amser Cylch wythnosol. Gall sesiynau Amser Cylch fod yn gyfuniad o gemau a chyfleoedd i blant ymateb yn gadarnhaol i'w gilydd mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar. Gallant hefyd roi cyfle i'r dosbarth drafod ymddygiad amhriodol a chynllunio ffyrdd o wella'r sefyllfa. Gall athrawon dosbarth benderfynu cynnal sesiynau Amser Cylch ar fyr rybudd neu'n fwy rheolaidd yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

2. Y Cwricwlwm.

Mae cynnwys y cwricwlwm wedi'i gynllunio i alluogi plant i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u perthynas ag eraill a sut maen nhw'n dewis trin eu hymennydd, eu cyrff a'u meddyliau nawr ac yn y dyfodol. Mae cynnwys y cwricwlwm dyddiol yn adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu gwreiddio a'u hatgyfnerthu'n gyson gan **BOB** aelod o staff trwy sesiynau addysgu dyddiol. e.e. addysgu parch ac empathi trwy ddefnyddio adnoddau amrywiol sy'n amlinellu gwerthoedd yr ysgol o ran BAME/ LGBTQ+

3. PCSs ac ELSA

O ran addysgu a chefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion byddwn yn defnyddio sesiynau ELSA ac offer Cynllunio Person-ganolog (PCP) i alluogi pob disgybl i greu proffil un dudalen yn nodi'n ofalus beth sy'n gwneud diwrnod da/diwrnod gwael? 'Sut orau i fy nghefnogi' a Beth sy'n bwysig i mi' Gwahoddir rhieni i gyfrannu at y Proffiliau Un Tudalen ar gyfer yr adran "Beth mae pobl yn ei hoffi ac yn ei edmygu amdanaf i".

4. Grwpiau anogaeth. Mae disgyblion y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael eu tynnu allan a'u cefnogi mewn grŵp bach i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu.

5. Gall plant y nodir bod angen cymorth unigol arnynt weithio gyda'r Cynorthwydd Iaith Cymorth Emosiynol (ELSA) gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau e.e. Arlunio a Siarad, therapi Lego, meithrin perthnasoedd cadarnhaol.

Camau Disgyblu

**Defnyddir strategaethau adferol ym mhob cam*

PWYSIG! Bydd pob sefyllfa yn cael ei hystyried yn ofalus a gellir addasu'r camau hyn yn unol â'r digwyddiad.
e.e. Pe bai digwyddiad difrifol, gall aelod o'r uwch dîm godi'r lefel yn uwch ar unwaith.

Lefel 1

- 1) Atgoffa'r disgybl ar lafar** o'r safon ymddygiad disgwylledig (yn dawel lle bo hynny'n bosibl). Wrth wneud hyn gellir **Ailadrodd y disgwyladau** os oes angen. **Diffodd y sefyllfa** gymaint ag sydd yn bosibl a cheisio **cadw pethau yn y cam cyntaf**. Ffiniau yn cael ai ail osod. Defnyddio technegau **Ailgyfeirio**- anogaeth dyner, ' hwb ' i'r cyfeiriad cywir, gweithred o garedigrwydd bach
- 2) Rhybudd ffurfiol** clir i'r disgybl wedi'i ddarparu'n dawel lle bynnag y bo modd, gan sicrhau bod y dysgwr yn ymwybodol o'i ymddygiad ac amlinellu'n glir y canlyniadau os bydd yn parhau. Gall yr athro/athrawes e.e. ysgrifennu enw'r disgybl ar y bwrdd gwyn, symud y disgybl i flaen y dosbarth/neu i ddosbarth arall. Disgybl yn adlewyrchu ar ei gam nesaf. **RHAID** – trafod gyda'r plentyn wedi'r digwyddiad er mwyn iddynt ddeall natur y gosb/penderfyniad
- 3)** Os nad yw'r disgybl yn ymateb o hyd, athro/athrawes yn **cofnodi enw'r disgybl** ar system gyfrifiadurol yr ysgol (**Canolfan Athrawon**) gyda chanlyniad o ataliad awtomatig o 15 munud amser egwyl/cinio o fewn yr adran/dosbarth. **RHAID** – trafod gyda'r plentyn wedi'r digwyddiad er mwyn iddynt ddeall natur y gosb/penderfyniad. **RHAID** llenwi cofnod ABC/ cofnod trafodaeth adferol (athro neu cynorthwyydd i gwblhau hyn) **Rhaid** i'r plentyn dderbyn sesiwn ELSA.

Lefel 2

- Os ceir patrwm o ymddygiad annerbyniol gan ddisgybl neu os ceir digwyddiad difrifol yna:-
- 4)** Bydd yr ysgol yn cwblhau **Proffil Boxall** er mwyn cwblhau asesiad o ymagwedd emosiynol a chymdeithasol y plentyn.
 - 5) Hysbysir y rhieni** a threfnir **cosb amser egwyl/cinio**. **Cofnodir hwn ar Canolfan Athrawon.**
 - 6) Llunir llyfryn ymddygiad/ cynllun ymddygiad personol**
 - 7) Athrawon i fonitro'r cytundeb/llyfr ymddygiad.**

	<p>8) Os na cheir ymateb cadarnhaol, cynhelir addysg y disgybl mewn lleoliad arall yn yr ysgol am gyfnod o amser gyda chymorth. Cofnodir hwn ar Canolfan Athrawon.</p> <p>RHAID – trafod gyda'r plentyn wedi'r digwyddiad er mwyn iddynt ddeall natur y gosb/penderfyniad</p> <p>*Gellir atal y disgybl rhag cynrychioli yr ysgol/cymryd rhan mewn gweithgareddau e.e.cystadleuaeth rygbi, tan fod gwell patrwm o ymddygiad</p>
Lefel 3	<p>Os na chydymffurfir â'r camau blaenorol neu os achosir digwyddiad difrifol iawn gan y disgybl yna:-</p> <p>9) Hysbysir y rhieni gan aelod o'r Uwch Dim Rheoli a threfnir cyfarfod.</p> <p>10) Llunir Cynllun Cefnogi ar gyfer y disgybl gyda thargedau penodol i'w cyrraedd a chynhelir addysg y disgybl o fewn ardal dan arolygaeth y Pennaeth/ Dirprwy.Cofnodir hwn ar Canolfan Athrawon.</p> <p>11) Adolygir cynnydd y disgybl yn ddyddiol a rhaid dangos gwelliant cyn i'r disgybl fedru dychwelyd i wersi'r brif ffrwd.</p> <p>*Gellir atal y disgybl rhag cynrychioli yr ysgol/cymryd rhan mewn gweithgareddau e.e.cystadleuaeth rygbi, tan fod gwell patrwm o ymddygiad</p>
Gwaharddiadau allanol/parhaol	<ul style="list-style-type: none"> • Methu cydymffurfio â'r camau blaenorol ar sawl achlysur • Achos digwyddiad difrifol iawn sydd wedi effeithio ar ddiogelwch, trefn ac addysg o fewn yr ysgol • Gall gweithred o drais difrifol, camdrin rhywiol, cyflenwi cyffur anghyfreithlon, bygwth neu ddefnyddio arf peryglus arwain at waharddiad parhaol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Protocol yn dilyn digwyddiad difrifol ar safle'r ysgol

Gweithredir prosesau Arfer Adferol yn sail i'r camau canlynol;

- **Ymchwiliad a chasglu tystiolaeth** gan y disgyblion eu hunain a disgyblion neu staff oedd yn dystion i'r digwyddiad- defnyddio taflenni adferol yr ysgol i gasglu tystiolaeth. **Cysylltu gyda rhieni** i roi gwybod am y digwyddiad ac i nodi ein bod yn ymchwilio ymhellach.
- Os oes digwyddiad o ymladd neu ymosod corfforol rhaid gwahanu'r disgyblion ar wahân yn syth.
- Os mae disgybl wedi cael anaf yn y digwyddiad rhaid ymateb o ran protocol cymorth cyntaf yr ysgol a chwilio yn benodol am effaith anaf i'r pen, cysylltu ag ambiwlans os oes angen, cysylltu gyda rhieni'r dioddefwr yn syth i roi gwybod, a chadw mewn cysylltiad gyda'r teulu i weld am gynnydd a iechyd y disgybl.
- Tra bod yr ymchwiliad yn parhau cadw'r ymosodwr ar wahân tan fod penderfyniad wedi ei wneud ar sail tystiolaeth yr ymchwiliad am gosb. Osgoi bod yr ymosodwr yn crwydro safle'r ysgol heb oruchwyliaeth. Os yw natur y sefyllfa yn ddifrifol iawn gofyn i'r rhieni ddod i gasglu'r disgybl i roi cyfle i'r ysgol ymchwilio'n llawn.
- Gweithredir **amser cylch ARFERION ADFEROL** yn dilyn dychweliad y disgybl o'r gwaharddiad mewnol/allanol dros dro yn unol â phroses arferion adferol yr ysgol.
- Yn dilyn pob digwyddiad o ymosod corfforol neu ymladd difrifol bydd angen cyfeirio'r disgybl i'r Gwasanaeth Ymddygiad Sirol am gymorth ac arweiniad pellach a/neu'r Seicolegydd Addysg.
- Gweithredir **Ataliad awr ginio ac egwyl** tra bod disgybl yn derbyn cymorth gan y **Gwasanaeth Ymddygiad** er mwyn diogelu disgyblion eraill os dyfernir ar sail y dystiolaeth bod hyn yn addas.

Strategaethau ysgol gyfan i fonitro a chynorthwyo i wella ymddygiad

Mae trafod gyda disgyblion gan ddefnyddio egwyddorion a phroses Arferion Adferol, wrth wraidd holl strategaethau'r ysgol. Y bwriad pob amser yw cael disgyblion i feddwl am eu hymddygiad ac effaith eu hymddygiad ar eraill. Y nod hefyd yw trafod sut i wella eu hymddygiad a gwneud yn iawn am ddigwyddiadau rhyngddynt ac aelodau eraill cymuned yr ysgol er mwyn adfer perthynas a symud ymlaen yn adeiladol.

- Adroddiad monitro ymddygiad, cymreictod ar Canolfan Athrawon
- Llyfr Ymddygiad i ddisgybl unigol dros gyfnod penodol
- Ataliad egwyl/awr ginio
- Cyfnod ynysu o wersi.

CYFEIRIO ALLANOL

Mae'r ysgol yn cyfeirio disgyblion yn ôl yr angen at y gwasanaethau Sirol canlynol er mwyn cynorthwyo a chefnogi disgyblion :

- **Gwasanaeth Cwmsela'r Sir** (gall y disgyblion hunan-gyfeirio hefyd l'r gwasanaeth hwn) am gymorth gydag ymdrin a phroblemau iselder a hunan-ddelwedd isel.
- **Gwasanaeth Ymddygiadol y Sir** sy'n cynnig sesiynau ar e.e. strategaethau rheoli tymer- trwy'r Cyd-gysylltydd ADY
- Aseiad **Seicolegydd Addysg y Sir** – a fydd yn gallu cyfeirio disgybl i wasanaethau Sirol pellach –trwy'r Cyd-gysylltydd ADY
- **Panel Mynediad Sirol** ar gyder **Uned Gyfeirio'r Sir** mewn achosion dwys o gamymddwyn na fu modd ei wella- rhaid darparu tystiolaeth fanwl o strategaethau ymyrraeth a ddefnyddiwyd dros gyfnod sylweddol o amser i gynorthwyo disgybl i adfer ei ymddygiad a Chynllun Addysg Unigol Ymddygiad.



Arferion Adferol

Mae cymuned lwyddiannus yn un sy'n adnabod, ac yn ymddiried, yn ei gilydd, ac sy'n cydweithio mewn ffordd deg i ddatrys gwrthdaro, ac i wneud pobl i deimlo'n well.

Sut ydym yn gwneud hynny?

Drwy weithredu egwyddorion "Arferion Adferol".

Beth ydyn nhw?

- **Cwestiynau Adferol** - gofynnir chwe chwestiwn adferol i ddisgybl yn dilyn profiad o wrthdaro:
 1. Beth ddigwyddodd?
 2. Beth oedd ar dy feddwl ar y pryd?
 3. Beth wyt ti wedi bod yn meddwl amdano ers hynny?
 4. Ar bwy y mae'r hyn a wnest di wedi cael effaith?
 5. Ym mha ffordd yr effeithiwyd arnynt?
 6. Beth ddylai ddigwydd nesaf yn dy farn di?
- **Cylchoedd Adferol** - trefnir cyfarfod yn dilyn gwrthdaro sylweddol, wedi'i gadeirio fel arfer gan athro/athrawes, gyda'r bwriad o ddatrys gwrthdaro ac adfer y niwed sydd wedi ei achosi. Sylfaen y cyfarfod fydd y chwe chwestiwn adferol, ond rhai sydd wedi'u targedu at y sawl sydd wedi dioddef, yn ogystal â'r achosydd.
- **Iaith Affeithiol** - defnyddia oedolion ar draws yr ysgol iaith sy'n cyfathrebu i'r disgybl effaith ei ymddygiad ar eraill, ac felly sy'n hyrwyddo perthynas dda (e.e."Rwy'n teimlo'n rhwystredig, Gareth, am nad wyt yn gwranddo arnaf").
- Yn dilyn pob digwyddiad difrifol, yn dilyn y broses ymchwilio a disgyblu, fe fydd proses adferol yn cael ei gweithredu er mwyn caniatu i ddisgyblion adfer eu hunain a chreu cytundeb a chydweithio adeiladol gyda'r disgybl arall neu'r disgyblion eraill neu'r aelod o staff

Dengys ymchwil mai effaith Arfer Adferol yw:

- Disgyblion sydd yn teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol
- Ymdeimlad o ddiogelwch yng nghymuned yr ysgol
- Lleihad yn y lefelau bwlio
- Lleihad mewn absenoldeb disgyblion oherwydd bwlio/ Cynnydd mewn presenoldeb
- Dysgwyr ac athrawon yn datblygu sgiliau datrys gwrthdaro
- Cyrhaeddiad gwell
- Lleihad yn nifer y gwaharddiadau/ Osgoi defnyddio camau mwy eithafol o ddisgyblaeth
- Lleihad mewn cyfeiriadau disgyblaeth yr ysgol/Lleihad mewn cyfeiriadau allanol
- Gwell perthnasau

POLISI GWRTH-FWLIO

Yn yr ysgol hon ystyrir 'bwlio' yn ymddygiad sy'n amharu ar hapusrwydd a bodlonrwydd aelod arall o gymuned yr ysgol. **Yn y gymuned ofalgar rydym yn meithrin yma yn yr ysgol nid oes lle i'r fath ymddygiad gan ei fod yn dangos diffyg parch difrifol at unigolyn.**

Nid ar ffurf ymddygiad corfforol ymosodol yn unig yr ymddengys y math hwn o ymddygiad. Gall fod ar ffurf:

- galw enwau amhleserus
- tynnu sylw at, a gwneud sbort am ben, nodwedd personol
- bychanu a sarhau cyhoeddus
- anwybyddu bwriadol
- ymneilltuo o fewn dosbarth neu griw o ffrindiau
- lledaenu straeon celwyddog
- bygwth person

Gall dioddef y math hwn o ymddygiad gan gyfoedion neu ddisgyblion hŷn efallai greu diflastod, anhapusrwydd ac unigrwydd mawr i unigolyn gan effeithio'n sylweddol ar ei ddatblygiad addysgiadol.

RÔL YR YSGOL

- Rhaid peidio â derbyn bod ymddygiad y 'bwli' yn anochel mewn ysgol. Gall patrymau cynnar o ormesu syml dyfu'n ymddygiad anghymdeithasol ddifrifol a chreu oedolion treisgar.
- Rhoi neges glir i gymuned yr ysgol (trwy wasanaethau blwyddyn ac ysgol gyfan, a thrwy'r Llyfr Cyswllt) bod ymddygiad ymosodol/bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol ac y bydd ymchwiliad manwl i ddigwyddiadau gyda chanlyniadau difrifol yn unol a'r Côd Disgyblaeth).
- GWRANDO ar ddisgyblion. Cymryd gofid pob disgybl unigol o ddifrif a chymryd cofnodion o'r hyn o ddywedir. Dod â'r mater i sylw'r Tiwtor Dosbarth/Pennaeth Blwyddyn/Dirprwy/Pennaeth Cynorthwyol cyn gynted ag sy'n bosibl – penderfynu ar y cyd sut i ddelio a'r achos/disgybl penodol.
- Rhoi amser i'r unigolyn drafod ei d/theimladau mewn awyrgylch gefnogol
- Dilyn i'r eithaf pob cwyn ynglŷn â pherson yn cael ei gamdrin yn y modd hwn gan sicrhau'r dioddefwr iddo/i wneud y peth iawn
- Gwneud yn glir yn gyhoeddus ac yn gyson nad yw'r math hwn o ymddygiad yn dderbyniol e.e. drwy wasanaethau, unedau penodol o fewn y rhaglen ABCH, trafodaethau boreol, lle cwyd cyfle yn y gwersi. Yn y modd hwn anelwn at greu darlun o'r 'bwli' fel person gwan sydd angen cymorth ei hun. Yn y modd hwn crëir hefyd y math o awyrgylch gefnogol lle y teimla pob disgybl yn ddiogel ac y gall fynegi'r hyn sy'n digwydd iddo/i
- Annog y disgyblion i weld safbwyntiau a theimladau ei gilydd
- Peidio ag ymateb i'r disgybl sy'n achosi'r gofid mewn modd ymosodol – dim ond parhau'r cylch treisiol a wna hynny.
- Rhaid ystyried o ble daw'r angen i greu diflastod i eraill
- Cysylltu â rhieni disgyblion sy'n creu anawsterau a diflastod i eraill

ADNABOD ARWYDDION DIODDEFWYR:

Rhaid bod yn effro i:

- newidiadau ym mhatrwm ymddygiad disgybl
- ymateb disgyblion i'w gilydd yn eu hamser hamdden – egwyl a chinio

- ddisgyblion yn cael eu halltudio neu'n ymddangos yn unig yn y dosbarth

ANGHENION Y 'BWLl' EI HUN:

Er y creir delwedd o gryfder a bygythiad gan berson a ddisgrifir yn 'bwli' y gwirionedd yw mai person gwan ac unig ydyw yn aml, un a chanddo hunan-ddelwedd isel. Gall fod amryw resymau dros ei ymddygiad:

- anhapusrwydd personol
- unigrwydd
- problemau personol
- ei f/bod yn ddioddefwr hefyd
- teimlon fethiant gyda'i waith neu'n cael gwaith yn anodd
- teimlo'n israddol o fewn dosbarth neu grŵp

Rhaid felly nid yn unig atal ei ymddygiad ond ceisio hefyd dileu ynddo/i yr angen i ymddwyn felly eto. Rhaid osgoi delio a'r canlyniad yn unig a mynd at wraidd y broblem.

* **Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-Fwlio' 2011 (sydd ar gael ar wefan addysg Llywodraeth Cymru) hefyd yn cynnig arweiniad i'r ysgol ynghylch 'bwlio' a gellid ei defnyddio i gefnogi strategaeth gwrth- fwlio yr ysgol.**

DISGYBLU sefyllfaeodd o Fwlio

Mewn achosion o fwlio ac yn dilyn ymchwiliad manwl, gweithredir y camau yn y Côd Disgyblaeth.

(Diwygiwyd 2020)

